## CYNGOR CYMUNED LLANDYGAI

## DEDDF YR AMGYLCHEDD (CYMRU) 2016 RHAN 1, ADRAN 6

## ADRODDIAD AR DDYLETSWYDD BIOAMRYWIAETH A CHYDNERTH ECOSYSTEMAU 2024

### CYFLWYNIAD

Mewn ymateb i Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 Rhan 1, Adran 6 cyhoeddodd y Cyngor Cymuned ei adroddiad cyntaf ar Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerth Ecosystemau ym mis Mai 2024.

Mae'r Cyngor Cymuned yn derbyn gwasanaeth clercio a datblygu prosiectau gan Partneriaeth Ogwen. Fel rhan o'r prosiect Dyffryn Gwyrdd/Gwyrdd Ni, mae'r Bartneriaeth yn daraparu prosiectau sydd yn cynnwys prosiectau bioamrywiaeth a chydnerth ecosystemau

Amlinella'r adroddiad sut mae'r Cyngor Cymuned yn cynnig gwasanaethau drwy Partneriaeth Ogwen , yn y gymuned a chydweithio â phartneriaid ar wasanaethau a gweithgareddau sy'n cael effaith ar fioamrywiaeth. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Cyfrifoldeb am dorri tyfiant llwybrau cyhoeddus o fewn y plwyf
- Cyllid – grantiau ar gael ar gyfer prosiectau o fewn y plwyf
- mewn cysylltiad â Chyngor Gwynedd am trefniadau torri gwair
- ymrwymiad i weithio ag Adran Bioamrywiaeth Cyngor Gwynedd

Rydym yn:

- hyrwyddo cynaliadwyedd a bioamrywiaeth drwy gyflawni amcanion cynaliadwyedd a gweithredu arferion cynaliadwy lle bynnag y bo modd.

Rydym yn gwasanaethu plwyf Llandygai. Y praesept ar gyfer 2023-24 yw £38,400.00.

### CAMAU GWEITHREDU

| | | **Monitro** |
|---|---|---|
| Cynnwys ystyriaethau bioamrywiaeth yn ein prosesau penderfynu a chaffael | Rhoi sylw i fioamrywiaeth wrth ystyried ceisiadau cynllunio a materion cysylltiedig eraill megis ceisiadau i dorri a thocio coed mewn ardaloedd yn y gymuned a warchodir gan Orchmynion Gwarchod Coed | Cyngor llawn |
| Codi ymwybyddiaeth o fioamrywiaeth a'i bwysigrwydd | Defnyddio gwefan y Cyngor a cyfrifon cyfryngau cymdeithasol Partneriaeth Ogwen | Cyngor llawn |
| Diogelu'r prif rywogaethau a chynefinoedd<br>Adfer a chreu rhwydweithiau ecolegol cydnerth | Coed afalu wrth ochr y Ganolfan<br><br>Blodau gwyllt wedi'i blannu yn Nhregarth a Mynydd Llandygai<br><br>Cais i Gyngor Gwynedd i beidio defnyddio chwyn laddwr o fewn y plwyf<br><br>Cais i Gyngor Gwynedd i beidio torri glaswellt ar ochr y ffyrdd, oni bai ei fod yn rhwystro gwelededd. | Cyngor llawn |
| Mynd i'r afael ag elfennau negyddol | Mae'r Cyngor yn weithgar yn tynnu sylw Cyngor Gwynedd a sefydliadau eraill pan fydd problemau fel Llysiau'r Dial (*Japanese Knotwood*) angen sylw<br><br>Wedi adrodd am llysiau'r dial yn ardal Mynydd Llandygai | Cyngor llawn. |
| Cefnogi sefydliadau eraill a dysgu o arfer dda | Cydweithio â Chyngor Gwynedd, gan gynnwys yr Adran Bioamrywiaeth<br><br>Rhannu arfer dda sy'n dod i law, e.e. Un Llais Cymru | Cyngor llawn. |

**AROLWG O DDYLETSWYDD ADRAN 6**

**Beth sy'n gweithio'n dda?**
Megis dechrau a monitor yn unig yr ydym eleni.

**Beth fyddwn yn ei wneud?**
**Parhau i weithio'n agos gyda Partneriaeth Ogwen a'r prosiect GwyrddNi.**
Parhau gweithio â Chyngor Gwynedd a'r Swyddog Bioamrywiaeth Lleol.
Parhau annog a chefnogi gwaith da a weithreda yn y gymuned.

**Sut a phryd caiff Dyletswydd Adran 6 ei monitro ac adolygu Cynllun Adran 6?**

Caiff y Ddyletswydd ei monitro yn flynyddol gan y Cyngor Cymuned.

**Mabwysiadwyd:** **Mai 2024**

**Arwyddwyd:** **(Cadeirydd)**